
28.01.2022

CYLCHLYTHYR YSGOL DEWI SANT NEWSLETTER

CYLCHLYTHYR WYTHNOSOL I DEULUOEDD YR YSGOL
WEEKLY FAMILY NEWSLETTER



HANNER TYMOR
HALF TERM

Bydd yr ysgol yn cau ar gyfer hanner tymor ar Ddydd Gwener 18/02/22 ac yn ail agor ar Ddydd Mawrth 01/03/22 gan fod y Dydd Llun yn ddiwrnod HMS.


School will close for half term on Friday 18/02/22 and we will be back on Tuesday 01/03/22 as the Monday is a teacher training day.

GENRE Y MIS...
THIS MONTHS GENRE...

JAZZ







Penblwydd Hapus



Dathlwyd 100 mlynedd o'r Urdd wythnos hon! Ewch i dudalen Trydar yr ysgol i weld y plant yn canu 'Hei Mr Urdd'.

We celebrated 100 years of the Urdd this week! Go to our Twitter page to see videos of the children singing 'Hei Mr Urdd'.










@YsgolDewiSant


Aelodaeth yr Urdd
Urdd membership

Os nad ydych wedi ymaelodi gyda'r Urdd yn barod cofiwch wneud! Ewch i www.urdd.cymru/cy/ymuno/ Mi fydd cyfle wedyn i'ch plentyn cymryd rhan yn y cystadleuthau gwahanol mae'r Urdd yn eu cynnig, gan gynnwys canu, coginio a celf.

If you haven't already, don't forget to become a member of the Urdd! Go to www.urdd.cymru/en/join/ Your child will then have the chance to take part in all the differnt competitions the Urdd has to offer such as singing, cooking and art.







Diwrnod Santes Dwynwen Hapus

Gweithgareddau Dosbarth



Dosbarth Derbyn wedi addurno bisgedi.
Reception class decorated biscuits.



Dosbarth Bodrhyddan wedi creu llwyau caru.
Bodrhyddan class made love spoons.



Her dosbarth Trellewelyn oedd creu calon allan o Lego.
Trellewelyn class had a challenge to make a heart out of Lego.



Dosbarth Clos y Berllan wedi creu cardiau allan o ewyn siafio a paent.
Clos y Berllan made cards using shaving foam and paint.

Big Schools' Birdwatch 2022


Mwy o luniau i weld ar Trydar.
More pictures to see on Twitter.

Mae'r disgyblion wedi mwynhau mynd am dro o amgylch yr ysgol wythnos yma yn chwilio am wahanol fathau o adar.

The pupils have enjoyed walking around the school this week looking for different types of birds.



Mae blwyddyn 4 wedi bod yn brysur yn creu bwyd i'r adar.
Year 4 have been busy making food for the birds.







Cadbury WORLD




Diolch yn fawr iawn i Cadbury World am y gweithdy rhithiol ddoe. Roedd plant dosbarth Bron Haul wrth ei boddau!

Thank you so much to Cadbury World for the virtual workshop yesterday. The children in Bron Haul loved it!











Da iawn ti Amelia am ennill Chwaraewr yr Wythnos yn dy dîm rygbi!

Well done to Amelia for winning Player of the Week in her rugby team!



Da iawn ti Evie yn dy lwyddiant wrth gystadlu yn y gystadleuaeth merlota diweddar! Ardderchog!

Well done Evie for winning 3 Rosettes whilst competing in Show jumping events! Amazing!




CYMRU, CYMRU A CHYMREICTOD

Fel ysgol gyfan, byddem yn dilyn thema o Gymru, Cymry a Chymreictod yn yr wythnosau nesaf a fydd yn canolbwyntio ar bob dim i wneud gyda ein gwlad arbennig. Mae magu balchder yn ein dysgwyr a gwneud iddynt ddeall gwerth yr iaith, diwylliant a chyfoeth ein hanes mor allweddol er mwyn creu dinasyddion egwyddorol, gwybodus Cymru a'r Byd. Bydd ein thema yn dod i ben ar Fawrth y 1af (diwrnod pwysig yng nghalendr Cymru - sef Dydd Gŵyl Dewi Sant!) trwy ddigwyddiad arbennig yn Y Rhyl (manylion pellach i ddilyn) . Rydym yn awyddus i ddathlu yr hyn sydd gan Ysgol Dewi Sant i gynnig a byddem yn falch o unrhyw gyfranaid o syniadau posib sydd gennych fel rhieni / gwarchodwyr i'n thema trwy neges ar Class Dojo i athrawon dosbarthiadau eich plentyn / plant. Edrychwch allan am yr hyn bydd pob dosbarth yn gwneud dros Trydar.


As a whole school, we will be following 'Wales and being Welsh' as a theme in the upcoming weeks that will focus on everything to do with our special country. Making our learners feel pride in their country and making them understand the value of the language, culture and richness of our history is key to creating ethical, informed citizens of Wales and the World. Our theme ends on March 1st (an important day of the year in the Welsh calendar - St David's Day!) which we will mark with a special event in Rhyl (more details to follow). We want to celebrate what Ysgol Dewi Sant has to offer and would be grateful of any ideas you may have as parents / guardians to contribute to our theme. We would gratefully receive your ideas through a message on Class Dojo to your child's / children's class teacher/s.

Look out for what each class will be doing over Twitter!



Siaradwyr Cymraeg yr wythnos





MEITHRIN BORE MRS MURTHA - EFA

MEITHRIN PNAWN MRS MURTHA - MICHAEL

DERBYN MISS HUGHES - JACK

DERBYN MRS OUSEY - CHARLOTTE

BL1 MS HAF DAVIES - TOMOS + SOPHIE

BL1 MRS RHYS / MRS JONES - CAI

BL2 MRS HANKS - JOB

BL2 MISS WOOLFORD - MARLIE + JAMES

BL3 MRS BRIERLEY - BLAKE

BL3 MR PHILLIPS - LLION

BL3 MISS CHARLES - OSCAR H

BL4 MISS PARRY - GEORGE

BL4 MRS EDWARDS - JAYDEN

BL5 MISS ELLIS - ALFIE

BL5 MRS FFION WILLIAMS - LOUIE

BL6 MISS CAIRNS - THOMAS

BL6 MRS DONA WILLIAMS - SAM

Os oes gan eich plentyn unrhyw ofynion dietegol arbennig, sicrhewch ein bod ni yn yr ysgol yn ymwybodol o'r rhain.

If your child has any special dietary requirements please ensure the school are aware of them.



Gwnewch yn siwr **nid ydy'r** disgyblion yn dod i'r ysgol yn gwisgo gemwaith pan maent hefo gwers addysg gorfforol.
Diolch.

Please make sure your child **does not** wear jewellery to school when they have P.E lessons.
Thank you.

